

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y **13 o Ragfyr 2011**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (Cadair), Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones-Griffith, Menna Williams, Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir) – Penygroes; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; T Les Jones – Nantlle; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; OP Huws – Cyngorydd Sir.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngorwyr.

Eithinog Wen. Codi estyniad i sied amaethyddol. Dim gwrthwynebiad.

Ffridd, Nantlle. Diddymu cytundeb 106 er mwyn galluogi codi sied amaethyddol newydd. Dim gwrthwynebiad.

Glan yr Afon, Nebo – Addasu adeilad allanol i fod yn anecs nain ynghyd a gwaith ymestyn a newidiadau i'r adeilad allanol. Dim gwrthwynebiad.

### Cyngor Gwynedd

Symudwyd mainc Cwting o'r cae gan Gyngor Gwynedd ar ddymuniad y Cyngor Cymuned, gan i'r Cyngor dderbyn cwynion gan drigolion am rai yn mynd yno i yfed. Byddwn yn trafod dod a'r fainc yn ol yng nghyfarfod y Cyngor fis Ebrill.

Cawsom ymateb gan Gyngor Gwynedd parthed gwlaau blodau Stryd yr Wyddfa – byddwn yn gofyn os oes modd gwneud cais am grant Mon-Arfon. Byddai tynnu'r gwlaau oddi yno yn creu mwy o le i geir barcio, a nid oedd y Cyngorwyr yn rhagweld unrhyw gynydd mewn cyflymder cerbydau yn teithio ar hyd Stryd yr Wyddfa, oherwydd prysurdeb y stryd. Mae blerwch yno drwy'r amser, a byddwn yn gofyn os oes modd i Gyngor Gwynedd wneud cynllun i edrych ar beth gallai gael ei wneud er mwyn cael ei ystyried pan fydd arian ar gael.

Bydd y Cyngor yn cael rhoi ei sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd. Mae'r Cyngor o'r farn ei fid yn bwysig bod y niferoedd o dai yn seiliedig ar y boblogaeth leol, a bod y dwysedd tai ar gyfer anghenion y gymuned leol. Nodwyd yr amserlen fyr, sydd yn annigonol ar gyfer ymgynghori yn iawn.

Derbyniwyd gwybodaeth am waharddiad dros dro ar Ffordd Nasareth a Nebo, ac ar lwybrau 78 a 79.

### Gohebiaeth Arall

Derbyniwyd ebost gan Nia Parry ynghylch y Ffair Nadolig Penygroes. Byddwn yn cysylltu efo Nia i ddiolch iddi am y cyfle o gydweithio ar y brosiect, a'i llongyfarch ar y llwyddiant a'r gwaith caled a aeth i drefnu a chydlynnu.

Diolchwyd y Cadeirydd am gynrychioli'r Cyngor ar Sul y Cofio ym Mhenygroes.